





# Mudiad y Llysgenhadon Ifanc

*Gweledigaeth i Gymru*

YOUTH SPORT TRUST

sportwales chwaraeoncymru

THE NATIONAL LOTTERY





# Cynnwys


**Datganiadau agoriadol** — **04**

*Rhagair – Ali Oliver, Prif Swyddog Gweithredol, Youth Sport Trust* — 04

*Trosolwg strategol* — 06

*Arweinyddiaeth ieuenctid* — 08

*Cyd-destun Cymreig* — 10

*Datblygu gweledigaeth* — 12

**Gweledigaeth i Gymru** — **14**

*Gweledigaeth, cenhadaeth, a phwrpas* — 14

*Amcanion y mudiad* — 16

*Llwybr cynnydd* — 18

**Rôl Llysgennad Ifanc** — **22**

*Canlyniadau'r rôl– trosolwg* — 22

*Dangos canlyniadau'r rôl* — 24

*Canlyniadau'r rôl – penodol* — 26

*Canlyniadau'r rôl – cyffredinol* — 28

**Gweithredu'r rhaglen** — **32**

*Rhwydwaith Cymru* — 32

*Cyfleoedd datblygu* — 36

*Adnoddau cefnogi* — 40

*Mesur effaith* — 42

**Atodiad** — **44**

# Cyflwyniad



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ddogfen weledigaeth newydd ar gyfer Mudiad y Llysgenhadon Ifanc yng Nghymru, gyda balchder ac edmygedd mawr o dwf a datblygiad y mudiad hwn ers ei greu fel rhaglen waddol Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 i ysbrydoli cenhedlaeth newydd.

Fel Prif Weithredwr yr Youth Sport Trust, rwy'n falch o weld sut mae'r mudiad hwn wedi parhau i dyfu ac ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn arweinwyr yfory. Rydym yn hynod falch o fod yn bartner gyda Chwaraeon Cymru wrth gyflwyno'r rhaglen hon ac rydym wedi gweld yn uniongyrchol lefel y dylanwad sydd gan bobl ifanc ar ddatblygu a chyflwyno strategaethau ar lawr gwlad.

Ers ei sefydlu, mae mudiad y Llysgenhadon Ifanc wedi rhoi llwyfan i bobl ifanc ymgysylltu'n weithredol ac ysgogi newid cadarnhaol mewn lleoliadau addysg a chymunedol ledled Cymru. Drwy'r rhaglen hon, gall pobl ifanc ffrwyno pŵer eu llais a'u gweithredoedd, hogi eu sgiliau arwain a chraidd, a dod yn fwy hyderus yn eu gallu i greu effaith ystyrlon ar gymdeithas.

Mae'r Llysgenhadon Ifanc yn chwarae rhan hollbwysig wrth hwyluso gweithgareddau, meithrin perthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a defnyddio pŵer eiriolaeth i rymuso pobl ifanc a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Fel cynrychiolwyr eu cymunedau, gall Llysgenhadon Ifanc ddefnyddio eu rôl i ddylanwadu, arwain, ysbrydoli a mentora o fewn ac ar draws lleoliadau addysg a chymunedol i helpu i gysylltu a chefnogi cymdeithas i fod yn fwy actif. Yn bennaf oll mae'r mudiad hwn yn cynrychioli dyfodol chwaraeon yng Nghymru a thu hwnt.

Mae graddedigion mudiad y Llysgenhadon Ifanc eisoes yn chwarae eu rhan o fewn y sector, ac rwy'n hyderus bod cam nesaf datblygiad chwaraeon ledled y wlad mewn dwylo diogel iawn.

Rydym yn ymddiried mewn pobl ifanc, mae gennym ffydd yn eu gallu i sicrhau newid cadarnhaol, ac mae'r ddogfen weledigaeth newydd hon yn cyfleu'r gobaith sydd gan bobl ifanc ledled Cymru ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'u hymrwymiad i'r genhedlaeth nesaf a'u dyhead i arwain a chreu byd hapusach, iachach, mwy cynhwysol a chynaliadwy.




**Ali Oliver MBE**
Prif Swyddog Gweithredol, Youth Sport Trust






# Trosolwg Strategol


Yr Youth Sport Trust yw prif elusen y DU sy'n gwella addysg a datblygiad pob person ifanc drwy chwaraeon a chwarae. Gan weithio gyda'n gilydd, rydym yn arfogi addysgwyr ac yn grymuso pobl ifanc gyda'r weledigaeth o greu dyfodol lle mae pob plentyn yn mwynhau manteision chwarae a chwaraeon sy'n gallu newid eu bywyd. Mae chwaraeon yn rhoi llwyfan i bobl ifanc leisio eu barn a lle iddynt deimlo eu bod yn perthyn iddo. Rydym yn ffrwyno'r pŵer rhyfeddol hwn i newid bywydau ifanc heddiw a'u helpu i greu yfory mwy disglair. Rydym yn gwneud hyn drwy:



Cynnal **rhaglenni** cynhwysol ac arloesol



Dod â **chymunedau** o addysgwyr at ei gilydd



Darparu offer ac **adnoddau** ymarferol

Yn 2022 lansiwyd ein strategaeth newydd, **Ysbrydoli pobl sy'n creu newid, meithrin perthyn**,lle'r oeddem yn nodi ein cenhadaeth hyd at 2035: Gan ddechrau yn lleol ac adeiladu momentwm, byddwn yn ysgogi ac yn ysbrydoli pobl sy'n creu newid i drawsnewid agweddau, gwella arfer a sbarduno newid polisi. Gyda'n gilydd byddwn yn ffrwyno pŵer chwarae a chwaraeon i feithrin perthyn am genhedlaeth, gan wella eu hiechyd, meithrin cynhwysiant a datblygu cymeriad ac arweinyddiaeth.

Mae gan y strategaeth hon dri amcan. Drwy gymryd **camau brys** nawr i feithrin pobl ifanc iachach, hapusach a gwytnach unwaith eto, byddwn yn sefydlu sylfaen dystiolaeth i sbarduno **newid cenhedlaeth** a chyflawni **newid cymdeithasol** yn y pen draw erbyn 2035.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon rydym wedi nodi chwe grŵp allweddol o bobl sy'n creu newid a sut mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i helpu i feithrin perthyn – **addysgwyr**, **pobl ifanc**, **sefydliadau**, **dylanwadwyr** mewn bywyd cyhoeddus, **teuluoedd**, a **ninnau**. Mae'r grwpiau hyn yn sail i'r chwe thacteg yn ein strategaeth.

Rydym hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod 50% o'r bobl ifanc sy'n elwa o'n gwaith yn cael mynediad at **Brydau Ysgol Am Ddim** (**neu gyfatebol**), a bod yr holl bobl ifanc sy'n ymwneud â'n rhaglenni yn gwella eu hymdeimlad o **berthyn**.

# Arweinyddiaeth ieuenctid

O fewn yr Youth Sport Trust, mae gan arweinyddiaeth ieuenctid ddwy elfen:

1. **Datblygiad personol** – mae arweinyddiaeth yn paratoi pobl ifanc i gwrdd â heriau glasoed a bod yn oedolion drwy ddatblygu eu nodweddion personol a chymdeithasol.
2. **Effaith gymdeithasol** – mae arweinyddiaeth yn galluogi ac yn grymuso pobl ifanc i fod o wasanaeth i eraill.

Mae arweinyddiaeth ieuenctid hefyd yn elfen graidd (Tacteg 2) o strategaeth yr Youth Sport Trust 2022-35.

## Mae Tacteg 2 yn ceisio:

Grymuso pobl ifanc drwy ddatgloi cymund genedlaethol o arweinwyr ifanc sy'n ffrwyno pŵer cadarnhaol chwarae a chwaraeon i wella lles, meithrin cyfeillgarwch a meithrin dealltwriaeth (tudalen 22).

## Mae'n cefnogi ein nod strategol i:

Ffrwyno pŵer chwarae a chwaraeon i feithrin perthyn am genhedlaeth, gwella eu hiechyd, meithrin cynhwysiant a datblygu cymeriad ac arweinyddiaeth.

Bydd Mudiad y Llysgenhadon Ifanc yn chwarae rhan annatod yn ein cefnogi i gyflawni ein nod strategol ein hunain yng Nghymru, a hefyd yn cefnogi gweledigaeth Chwaraeon Cymru i alluogi chwaraeon i ffynnu mewn lleoliadau addysg a chymunedol.



# Cyd-destun Cymreig

Yn 2005, gwnaeth yr Arglwydd Sebastian Coe addewid i ddefnyddio pŵer Gemau Llundain 2012 i ysbrydoli miliynau o bobl ifanc i ddewis chwaraeon. Ganed mudiad y Llysgenhadon Ifanc o'r addewid hwn ac fe'i cyflwynwyd gyntaf yng Nghymru yn 2009 fel rhan o'r Gemau Ysgolion Cenedlaethol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Yng Nghymru heddiw, mae mudiad y Llysgenhadon Ifanc yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan **Chwaraeon Cymru** ac mae'n elfen allweddol o'u cyfraniad at ddatblygu pobl ifanc fel arweinwyr y dyfodol mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol, a chwarae, gyda 25,000+ o lysgenhadon ifanc yn cael eu cefnogi drwy'r rhaglen ers ei dechrau.

Mae profiadau pobl ifanc o chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chwarae yn ganolog i drawsnewid Cymru yn genedl fwy actif ac iach lle gall pawb gael mwynhad gydol oes. Mae rhaglen y Llysgenhadon Ifanc wedi bod yn un o'r mentrau mwyaf blaenllaw yn y sector chwaraeon ac addysg o ran rhoi llais i bobl ifanc a'r grym i ddylanwadu ar y cyfleoedd maent hwy a'u cyfoedion yn eu cael i fod yn fwy actif a nod y weledigaeth newydd hon yw gwella hynny ymhellach.

sportwales chwaraeoncymru

THE NATIONAL LOTTERY



# *Datblygu Gweledigaeth*

Yn 2021, comisiynwyd ngatahi sport gan Chwaraeon Cymru i gwblhau adolygiad o Fudiad y Llysgenhadon Ifanc. Nod y gwaith hwn oedd rhoi cyfle i ddathlu gwaddol Gemau Llundain 2012, ond hefyd symud y sylw at y 10 mlynedd nesaf o gyfleoedd ar gyfer llais ieuenctid ac arweinyddiaeth ieuenctid ar draws y byd chwaraeon yng Nghymru. Roedd hefyd yn ceisio nodi sut mae angen i'r rhaglen addasu i wynebu heriau newydd yn y tirlun chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n newid, yn ogystal â chyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a lansiwyd ym mis Medi 2022.

Mewn ymateb i'r adolygiad, sefydlwyd gweithgor cenedlaethol yn cynnwys nifer o randdeiliaid allweddol, a gafodd y dasg o drafod y canfyddiadau a'r argymhellion, gyda'r nod o ddatblygu gweledigaeth newydd. Yn ogystal â'u cyfraniadau gwerthfawr, cafwyd gwybodaeth bellach hefyd drwy arolwg cenedlaethol, grwpiau ffocws rhanbarthol, ymgynghoriad yng nghynhadledd genedlaethol y Llysgenhadon Ifanc a thrwy nifer o brosiectau 'lansio meddal', gyda'r holl adborth yn helpu i lywio, mireinio a siapio'r Weledigaeth a sut mae heddiw.



# Gweledigaeth, Cenhadaeth, a Phwrpas

## Gweledigaeth

Datblygu Llysgenhadon Ifanc i ddod yn **arweinwyr y dyfodol** yng Nghymru, drwy chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chwarae. Rydym eisiau iddynt **ysbrydoli**, **dylanwadu**, **arwain**, a **mentora** o fewn ac ar draws **addysg** a **chymunedau**, i gysylltu a chefnogi cymdeithas i fod yn **iach** ac yn **actif**.

## Cenhadaeth

Darparu cefnogaeth barhaus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r Llysgenhadon Ifanc, i ddatblygu'n arweinwyr ifanc hyderus, llawn cymhelliant a medrus. Rydym eisiau iddynt **ddysgu drwy arweinyddiaeth** drwy ddarparu cyfleoedd a phrofiadau cadarnhaol ac ystyrlon a fydd yn gwella eu **sgiliau craidd**.

## Pwrpas

Drwy gydweithredu traws-sector, datblygu, cefnogi, a grymuso'r Llysgenhadon Ifanc ar y cyd i **hwyluso gweithgareddau**, **meithrin perthyn**, **mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**, a defnyddio **pŵer eiriolaeth** i drawsnewid Cymru i fod yn **genedl** fwy **iach** ac **actif**.



# *Amcanion y mudiad*

## 1

Darparu rhaglen Llysgenhadon Ifanc **gynhwysol** sy'n **weithredol** ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac sy'n **weladwy** ac yn cael **effaith** o fewn ac ar draws addysg a chymunedau.

## 2

Creu cymuned fwy **amrywiol** a **chynrychioliadol** o Lysgenhadon Ifanc ar bob lefel o'r **llwybr cynnydd** (efydd i blatinwm) yn ogystal â phaneli rhwydwaith.

## 3

Darparu **cyfleoedd datblygu** hygyrch, hybrid ac adnoddau dwyieithog a all **arfogi** Llysgenhadon Ifanc, staff a rhanddeiliaid i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

## 4

Cynyddu **cyfathrebu**, **cysylltiadau**, a **chydweithredu** o fewn ac ar draws rhwydwaith y Llysgenhadon Ifanc ar lefel **leol**, **ranbarthol** a **chenedlaethol** yng Nghymru.

## 5

**Adolygu** rhaglen y Llysgenhadon Ifanc **yn flynyddol** i sicrhau bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel ac yn gyson ac yn cyd-fynd â'n **gweledigaeth**, ein **cenhadaeth** a'n datganiadau o **bwrpas**.

## 6

**Tynnu sylw at** a dathlu effaith a llwyddiant y mudiad drwy **rannu arfer gorau** a chydnabod a gwobrwyo Llysgenhadon Ifanc, staff a rhanddeiliaid.





# Llwybr Cynnydd

Bydd y Llysgenhadon Ifanc ledled Cymru yn dilyn y **Llwybr Cynnydd** sy'n cynnwys pedair haen (Efydd, Arian, Aur, a Phlatinwm) ac sy'n adlewyrchu siwrnai arweinyddiaeth a datblygiad y Llysgenhadon Ifanc dros amser. Yn gysylltiedig â'n datganiad o Weledigaeth, rydym eisiau datblygu'r Llysgenhadon Ifanc i ddod yn **arweinwyr Cymru yn y dyfodol**, drwy chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chwarae. Rydym eisiau iddynt **ysbrydoli**, **dylanwadu**, **arwain**, a **mentora** o fewn ac ar draws **addysg** a **chymunedau**, i gysylltu a chefnogi cymdeithas i fod yn **iach** ac yn **actif**.

Wrth benderfynu ar **fan cychwyn** ar gyfer y Llysgennad Ifanc neu asesu a yw'n barod i symud ymlaen i **haen nesaf** y llwybr cynnydd e.e., o efydd i arian, rhaid i randdeiliaid ddefnyddio'r matrics canlyniadau rôl ar **dudalennau 26 i 27** fel sail i'w penderfyniad. Rhaid i'r ffocws fod ar ba **gam**, **nid oedran**, y mae'r Llysgennad Ifanc wedi'i gyrraedd a darparu cyfleoedd, profiadau, a chefnogaeth (yn ôl anghenion yr unigolyn) i'w alluogi i gyflawni a symud ymlaen yn barhaus ar hyd y llwybr, os yw'n dymuno.

Er mwyn cyflawni ein Gweledigaeth, bydd angen i'r Llysgenhadon Ifanc fynd ati'n rhagweithiol ar drywydd, ac i diwtoriaid hwyluso mynediad i, **gyfleoedd** a **phrofiadau** cadarnhaol ac ystyrlon a fydd yn eu galluogi i **ddysgu drwy arweinyddiaeth**. Bydd hyn yn cael ei sbarduno gan y pedwar **Piler Llwybr**, sy'n sail i'r Llwybr Cynnydd ac sy'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y rôl a'r sgiliau rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc eu datblygu, a'r meysydd rydym eisiau iddynt eu blaenoriaethu.

**1** **Canlyniadau'r rôl:** dyma'r rôl benodol rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc ei harddangos a'i chyflwyno.

**2** **Meysydd blaenoriaeth:** dyma'r meysydd penodol rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc ganolbwyntio arnynt a chael effaith.

**3** **Sgiliau craidd:** dyma'r sgiliau penodol rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc eu datblygu a'u defnyddio.

**4** **Gwelededd ac effaith:** dyma'r gofod a'r llefydd yr hoffem i Lysgenhadon Ifanc arwain pobl ifanc a darpariaeth ynddynt.

I weld y llwybr cynnydd yn llawn, edrychwch ar **dudalen 20**.

# Llwybr Cynnydd

**Llwybr Cynnydd**
Datblygu arweinwyr y dyfodol yng Nghymru drwy chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chwarae

| Llysgennad Ifanc Efydd | Llysgennad Ifanc Arian | Llysgennad Ifanc Aur | Llysgennad Ifanc Platinwm |
|---|---|---|---|
| Dull:<br>Arwain gyda'n gilydd | Dull:<br>Arwain mewn partneriaeth | Dull:<br>Arwain tîm | Dull:<br>Arwain y mudiad |

**Pileri'r llwybr**
Darparu cyfleoedd a phrofiadau i bobl ifanc ddysgu drwy arweinyddiaeth

| Canlyniadau'r rôl | Sgiliau craidd | Meysydd blaenoriaeth | Gweledigaeth ac effaith |
|---|---|---|---|
| Ysbrydoli | Effeithiolrwydd personol | Hwyluso gweithgareddau | Arwain o fewn ac ar draws addysg a chymunedau |
| Dylanwadu | Cynllunio a threfnu | Ffocws ar eiriolaeth | Arwain darpariaeth i gefnogi Cymru i fod yn iach ac actif |
| Arwain | Creadigrwydd ac arloesi | Meithrin perthyn | |
| Mentora | Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau | |

# Canlyniadau'r rôl – trosolwg

Mae'r llwybr cynnydd yn canolbwyntio ar ddatblygu **Canlyniadau rôl penodol a chyffredinol** ar gyfer Llysgenhadon Ifanc ar draws y pedair haen (Efydd, Arian, Aur, a Phlatinwm). Dylai'r canlyniadau hyn gael eu cymhwyso gan yr holl randdeiliaid sy'n cyflwyno'r rhaglen, i bennu **lefel o ddisgwyliad** ac i sicrhau **cysondeb o ran dull** darparu ledled Cymru.

Y canlyniadau rôl hyn yw'r hyn rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc eu **blaenoriaethu a'u cyflawni** o fewn ac ar draws addysg a chymunedau drwy'r **cyfleoedd a'r profiadau** maent yn cymryd rhan ynddynt.

## 1

**Canlyniadau rôl penodol:** y dulliau arweinyddiaeth a'r canlyniadau rôl rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc eu datblygu ym mhob haen benodol o'r llwybr (efydd i blatinwm), i sicrhau bod eu siwrnai arweinyddiaeth yn gwneud cynnydd ac yn ddatblygiadol wrth iddynt ddod i mewn a symud ymlaen ar hyd y llwybr cynnydd.

**Dulliau arweinyddiaeth**

1. **Lefel efydd:** arwain gyda'n gilydd
2. **Lefel arian:** arwain mewn partneriaeth
3. **Lefel aur:** arwain tîm
4. **Platinum level:** arwain y mudiad

**Canlyniadau rôl**

1. Ysbrydoli
2. Dylanwadu
3. Arwain
4. Mentora

## 2

**Canlyniadau rôl cyffredinol:** y sgiliau craidd y mae angen i Lysgenhadon Ifanc eu datblygu, a'r meysydd blaenoriaeth rydym eisiau iddynt ganolbwyntio arnynt, ar draws pob lefel o'r llwybr cynnydd a thrwy gydol eu siwrnai arweinyddiaeth gyfan, i gefnogi eu datblygiad personol parhaus ac i wneud y gorau o effaith eu rôl.

**Sgiliau craidd**

1. Effeithiolrwydd personol
2. Cynllunio a threfnu
3. Creadigrwydd ac arloesi
4. Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

**Meysydd blaenoriaeth**

1. Hwyluso gweithgareddau
2. Ffocws ar eiriolaeth
3. Meithrin perthyn
4. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

# Dangos Canlyniadau Rôl

Er mwyn cofnodi ac arddangos eu cynnydd yn erbyn canlyniadau penodol a chyffredinol rôl, mae **llyfrau gwaith y Llysgenhadon Ifanc** wedi'u creu ar lefel efydd, arian, aur a phlatinwm.

Mae'r llyfrau gwaith yn cynnwys gwahanol weithgareddau a **heriau** ar bob lefel benodol o'r llwybr cynnydd i'r Llysgenhadon Ifanc eu cwblhau ar y cyd, fesul dau a / neu yn unigol.

Gall y Llysgenhadon Ifanc gwblhau'r gweithgareddau a'r heriau yn eu llyfrau gwaith yn eu **hamser eu hunain** ac ar eu **cyflymder eu hunain**, a chofnodi a dangos eu cynnydd mewn **ffyrdd creadigol** sy'n gweddu i'w dewis dysgu eu hunain e.e., drwy destun ysgrifenedig, fideos, ffotograffau, posteri, cyflwyniadau, neu arall. Gall tiwtoriaid hefyd gynnal **arsylwadau**, cymryd rhan mewn **sgyrsiau** dysgu, neu werthuso Llysgenhadon Ifanc mewn ffyrdd **amgen**, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddangos eu cynnydd mewn ffordd amrywiol.

Unwaith y bydd y Llysgenhadon Ifanc wedi **cwblhau'r** gweithgareddau a'r heriau a restrir yn eu llyfr gwaith yn eu ffordd greadigol eu hunain, dylent ei gyflwyno i'w tiwtor i'w adolygu, ei ddilysu a'i lofnodi cyn cael **tystysgrif** Llysgennad Ifanc Efydd, Arian, Aur neu Blatinwm. Wedyn byddant yn gallu gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau ar haen nesaf y **llwybr cynnydd** e.e., o efydd i arian, arian i aur, neu aur i blatinwm, os ydynt yn dymuno, a bydd rhaid iddynt ailadrodd yr un broses eto.

I gael gwybod sut i gael mynediad at y llyfrau gwaith a'r adnoddau, sydd am ddim i diwtoriaid eu lawrlwytho, ewch i'r adran adnoddau ategol ar **dudalen 40**.



# Canlyniadau'r rôl – penodol

**Dull arweinyddiaeth**

Isod mae'r pedwar dull arweinyddiaeth a neilltuir i bob haen benodol o lwybr cynnydd y Llysgenhadon Ifanc (efydd i blatinwm)

| Efydd | Arian | Aur | Platinwm |
|---|---|---|---|
| **Arwain gyda'n gilydd** fel tîm, rhannu rôl a chyfrifoldebau cyfartal, gyda ffocws ar gefnogi unigolion i fod yn iach ac yn actif | **Arwain mewn partneriaeth**, rhannu rôl a rhannu gwybodaeth a syniadau, gyda ffocws ar gefnogi grwpiau penodol i fod yn iach ac yn actif | **Arwain tîm**, cyfathrebu'n effeithiol a chydweithredu ag eraill, i gefnogi **grwpiau lluosog** i fod yn iach ac yn actif | **Arwain y mudiad**, o fewn ac ar draws addysg a chymunedau, i gefnogi cymdeithas i fod yn iach ac yn actif |

**Rôl**

Dangosir isod y pedair rôl (Ysbrydoli, Dylanwadu, Arwain a Mentora) a neilltuir i bob haen benodol o lwybr cynnydd y Llysgenhadon Ifanc (efydd i blatinwm)

| Efydd | Arian | Aur | Platinwm |
|---|---|---|---|
| **Ysbrydoli unigolion** e.e., i ymgysylltu a / neu gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol neu chwarae | **Ysbrydoli grwpiau penodol** e.e., sydd efallai'n segur, dan anfantais, neu'n cael eu tangynrychioli | **Ysbrydoli grwpiau lluosog** e.e. dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn, ysgolion clwstwr, neu grwpiau cymunedol | **Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol** o bobl ifanc i ddod yn arweinwyr mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol neu chwarae |
| **Dylanwadu ar unigolion** e.e., ffrindiau, cyfoedion, neu aelodau o'r teulu, i fod yn iach ac yn actif | **Dylanwadu ar grwpiau penodol** e.e., yn seiliedig ar oedran, gallu, anabledd, neu rywedd y gynulleidfa darged | **Dylanwadu ar uwch arweinwyr** e.e., addysgwyr, hyfforddwyr, gweithwyr ieuenctid neu chwarae | **Dylanwadu ar randdeiliaid** e.e., awdurdodau lleol, partneriaid cenedlaethol, neu gyrff rheoli |
| **Cydarwain** gweithgareddau aml-sgil, chwaraeon neu chwarae, gan ddarparu profiad cadarnhaol i bawb sy'n cymryd rhan | **Arwain mewn partneriaeth** weithgareddau cynhwysol sy'n diwallu anghenion a diddordebau grwpiau penodol | **Arwain ystod o weithgareddau amrywiol** e.e., clybiau allgyrsiol, chwaraeon ysgol, neu weithgareddau cymunedol | **Bod yn arweinwyr prosiect** ar gyfer ymgyrchoedd, mentrau, hyfforddiant neu ddigwyddiadau, ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol |
| **Cyfeillio** gyda llysgenhadon efydd eraill a chefnogi'n anffurfiol a **mentora ei gilydd** | **Mentora llysgenhadon ifanc efydd** i gefnogi eu siwrnai arwain a'u datblygiad | **Mentora llysgenhadon ifanc arian** i gefnogi eu siwrnai arwain a'u datblygiad | **Mentora llysgenhadon ifanc aur** i gefnogi eu siwrnai arwain a datblygu |

# Canlyniadau rôl – cyffredinol

## Sgiliau Craidd

Isod mae rhestr o ganlyniadau ym mhob un o'r pedair **sgil craidd** rydym yn anelu i BOB Llysgennad Ifanc (efydd i blatinwm) eu datblygu fel rhan o'u rôl a'u siwrnai arwain. Anogir y Llysgenhadon Ifanc i gydnabod ac adlewyrchu'n barhaus ar y gwahanol sgiliau maent yn eu datblygu a'u defnyddio drwy'r cyfleoedd a'r profiadau a geir o fod yn Llysgennad Ifanc.

| Cynllunio a threfnu | Effeithiolrwydd personol | Meddwl yn teirniadol a datrys problemau | Creadigrwydd ac arloesi |
|---|---|---|---|
| Gosod nodau SMART a bod yn llawn cymhelliant i gyflawni eich gorau personol | Pennu safonau uchel a bod yn gyfrifol, dibynadwy, ac yn fodel rôl i eraill | Recognise issues or problems that affect or prevent young people participating | Bod â meddwl agored, yn chwilfrydig ac yn ymholgar, i edrych ar ffyrdd newydd o gael pobl ifanc i fod yn actif |
| Gweithio'n effeithiol gydag eraill, gan werthfawrogi'r rôl a'r cyfraniadau maent hwy ac eraill yn eu gwneud | Annog dadl a thrafodaeth, a pharch ac empathi at farn pobl ifanc | Ask meaningful questions, and search for answers to understand reasons why barriers exist | Bod yn ddigon dewr i fod yn greadigol, i ddatblygu syniadau arloesol neu i ddylunio gweithgareddau newydd |
| Rheoli amser, pobl, offer, ac adnoddau, i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal yn effeithlon | Meithrin gwytnwch drwy fod yn hunanddisgybledig, dysgu o heriau neu rwystrau a wynebir | Co-create solutions with young people, with the aim of overcoming barriers identified | Profi syniadau neu weithgareddau newydd, a cheisio adborth gan bobl ifanc, i fesur effaith |
| Gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau, i adlewyrchu ar ac addasu gweithgareddau os oes angen | Gwerthuso eich dysgu eich hun, gan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu | Implement solutions, monitor the impact, and review and analyse the results | Gwerthuso llwyddiannau a diffygion profi, gan wneud argymhellion ar gyfer gwella |

# Canlyniadau Rôl Cyffredinol

## Meysydd Blaenoriaeth

Isod mae rhestr o ganlyniadau ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth rydym eisiau i BOB Llysgennad Ifanc (efydd i blatinwm) eu datblygu fel rhan o'u rôl a'u siwrnai arwain. Mae'r Llysgenhadon Ifanc yn cael eu grymuso i ddewis pa ffactorau ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth all gael yr effaith fwyaf arnyn nhw a'u hamgylchedd a rhoi newid ar waith i gefnogi cymdeithas i fod yn fwy actif.

| Hwyluso gweithgareddau | Ffocws ar eiriolaeth | Meithrin perthyn | Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau |
|---|---|---|---|
| **Cynllunio gweithgareddau** a all ddarparu cyfleoedd a phrofiadau cadarnhaol i bawb | Codi ymwybyddiaeth o **ganllawiau gweithgarwch corfforol**, ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion | Creu **mannau hwyliog**, **diogel** ac **anffurfiol** lle mae pobl yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu derbyn a'u cynnwys | Darparu **mynediad a chyfleoedd cyfartal** wrth arwain gweithgareddau, fel bod pawb yn gallu elwa |
| **Hyrwyddo gweithgareddau**, naill ai ar lafar, yn weledol neu'n ddigidol, i godi ymwybyddiaeth | Hyrwyddo **iechyd a lles** cadarnhaol (corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol) | **Cysylltu yn gymdeithasol** drwy fod yn hawdd siarad â chi, yn gyfeillgar ac yn ofalgar wrth gyfathrebu ag eraill | Bod yn hyblyg i **addasu** ac **amrywio'r** gweithgareddau a gynigir i ddiwallu anghenion pobl ifanc |
| **Arwain gweithgareddau**, sy'n hwyliog, yn ddiogel ac yn gynhwysol, i gynyddu cyfranogiad | Defnyddio **ymgyrchoedd cenedlaethol a digwyddiadau mawr** i ysbrydoli eraill i fod yn gorfforol actif | **Meithrin perthnasoedd** ag eraill i wneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, ac yn gadarnhaol amdanynt eu hunain | Hyrwyddo neu ddarparu **llwybrau gadael** i bobl ifanc i ddarpariaeth sy'n bodoli yn lleol iddynt |
| **Gwerthuso gweithgareddau**, yn seiliedig ar hunanadlewyrchu ac adborth gan gyfranogwyr, i adolygu effaith | Hyrwyddo manteision **chwaraeon**, **gweithgarwch corfforol** a **chwarae**, i gefnogi datblygu sgiliau bywyd | **Gwobrwyo** cyfranogwyr sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol drwy **gydnabod** eu cynnydd a'u cyflawniadau | Hyrwyddo **cydraddoldeb**, **amrywiaeth**, a **chynhwysiant**, a'r **defnydd o'r Gymraeg**, wrth arwain gweithgareddau |

# ***Gweithredu'r rhaglen***
## *Rhwydwaith Cymru*

Er mwyn cysylltu Mudiad y Llysgenhadon Ifanc ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, mae Rhwydwaith Cymru wedi cael ei gynllunio i gynyddu'r cyfathrebu a'r cydweithredu ar bob lefel i gefnogi'r Llysgenhadon Ifanc, rhanddeiliaid allweddol, a chyn-aelodau i weithio gyda'i gilydd, rhannu arfer gorau, ac ysgogi'r mudiad ledled Cymru.

Bydd hyn yn sicrhau bod dull cyson o gyflawni yn erbyn ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, a'n datganiadau o bwrpas, ac yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau i Lysgenhadon Ifanc i arwain mewn ystod ehangach o leoliadau addysg a chymunedol.

**Ar lefel genedlaethol** byddwn yn **sbarduno'r mudiad** yn barhaus drwy bennu **cyfeiriad strategol** i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n datganiadau o bwrpas.

**Ar lefel ranbarthol** byddwn yn cysylltu, yn cyfathrebu, ac yn cydweithredu â rhanddeiliaid allweddol i **gasglu gwybodaeth**, **rhannu arfer gorau**, a **dathlu llwyddiant**.

**Ar lefel leol** byddwn yn **cydweithio** ag ystod o randdeiliaid allweddol i roi **cyfleoedd** a **phrofiadau** i'r Llysgenhadon Ifanc i arwain o fewn ac ar draws **addysg** a **chymunedau**.

***Gweithredu'r rhaglen***

# *Rhwydwaith Cymru*

## Lefel Genedlaethol

### Rhwydwaith y llysgenhadon ifanc

**Panel cenedlaethol**
- 22 o Gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol
- Llysgenhadon Ifanc Platinwm
- Un Cyd-Gadeirydd yn aelod o'r Panel Cymunedau
- Un Cyd-Gadeirydd yn aelod o'r Panel Addysg

**Rhwydwaith cyn-aelodau**
- Rhwydwaith Proffesiynol Ar-lein
- Llysgenhadon ac Eiriolwyr Gwaddol
- Mentora Panel y Llysgenhadon Ifanc
- Presenoldeb Mewn Cynadleddau Rhanbarthol

### Rhwydwaith rhanddeiliaid

**Panel cymunedau**
- Cynrychiolwyr Partneriaeth Chwaraeon
- Cynrychiolwyr Partner Cenedlaethol
- Cynrychiolydd Datblygu Pobl Chwaraeon Cymru
- Un Cyd-Gadeirydd o Banel y Llysgenhadon Ifanc

**Panel addysg**
- Cynrychiolwyr Addysg Gynradd ac Uwchradd
- Cynrychiolwyr Addysg Bellach ac Uwch
- Cynrychiolydd Addysg Chwaraeon Cymru
- Un Cyd-Gadeirydd o Banel y Llysgenhadon Ifanc

## Lefel rhanbarthol

### Gogledd Cymru

1 Wrecsam
2 Sir Ddinbych
3 Sir y Fflint
4 Conwy
5 Gwynedd
6 Ynys Môn

### Canolbarth y De a Dwyrain Cymru

1 Blaenau Gwent
2 Caerffili
3 Sir Fynwy
4 Casnewydd
5 Torfaen
6 Pen-y-bont ar Ogwr
7 Caerdydd
8 Merthyr Tudful
9 Rhondda Cynon Taf
10 Bro Morgannwg

### De Orllewin Cymru

1 Sir Gaerfyrddin
2 Castell-nedd a Phort Talbot
3 Sir Benfro
4 Abertawe
5 Ceredigion
6 Powys

## Lefel leol

### Rhanddeiliaid addysg a chymuned

- Datblygu Chwaraeon Awdurdodau Lleol
- Ysgolion Cynradd, Uwchradd, UCD ac AAA

- Gwaith ieuenctid a chwarae
- Awyr Agored ac Antur

- Partneriaid Cenedlaethol a Chyrff Rheoli
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch

- Digwyddiadau, Hamdden a Thwristiaeth
- Clybiau, Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol

***Gweithredu'r rhaglen***

# *Cyfleoedd datblygu*

## Cynadleddau'r Llysgenhadon Ifanc Aur a Phlatinwm

– Bydd tair cynhadledd Llysgenhadon Ifanc Aur a Phlatinwm ranbarthol yn cael eu cynnal yn nhymor yr Hydref ym mhob blwyddyn academaidd yng Ngogledd, Canolbarth y De / Dwyrain a Gorllewin Cymru.

– Bydd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn cael eu rhannu yn unol â hynny (edrychwch isod) i sicrhau bod y cynadleddau'n fwy lleol i gyfyngu ar amser teithio a chost.

**Gogledd Cymru**

1 Wrecsam
2 Sir Ddinbych
3 Sir y Fflint
4 Conwy
5 Gwynedd
6 Ynys Môn

**Canolbarth y De a Dwyrain Cymru**

1 Blaenau Gwent
2 Caerffili
3 Sir Fynwy
4 Casnewydd
5 Torfaen
6 Pen-y-bont ar Ogwr
7 Caerdydd
8 Merthyr Tudful
9 Rhondda Cynon Taf
10 Bro Morgannwg

**De Orllewin Cymru**

1 Sir Gaerfyrddin
2 Castell-nedd a Phort Talbot
3 Sir Benfro
4 Abertawe
5 Ceredigion
6 Powys

## Gwybodaeth am y Cynadleddau

– Drwy gynyddu nifer y cynadleddau, bydd hyn yn caniatáu i fwy o Lysgenhadon Ifanc, staff a rhanddeiliaid gael mynediad at gyfle cynhadledd.

– Bydd yr Youth Sport Trust yn cyfathrebu'r neilltuo i randdeiliaid ynghylch faint o Lysgenhadon Ifanc Aur a Phlatinwm y gallant ddewis dod â hwy yn seiliedig ar gapasiti'r lleoliad.

– Bydd y cynadleddau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau AB neu AU i gryfhau cysylltiadau a llwybrau'r Llysgenhadon Ifanc y tu hwnt i addysg orfodol ac i mewn i swydd.

– Bydd y cynadleddau'n cael eu harwain gan Banel Cenedlaethol y Llysgenhadon Ifanc ac yn cael eu cefnogi gan randdeiliaid allweddol a phartneriaethau chwaraeon sydd wedi'u lleoli ym mhob rhanbarth penodol.

– Cofiwch y bydd hyblygrwydd i randdeiliaid gael mynediad i gynhadledd y Llysgenhadon Ifanc y tu allan i'r rhanbarth a neilltuwyd iddynt os yw'n fwy lleol a chyfleus iddynt.

– I gadw lle, anfonir dolen gofrestru ar-lein at randdeiliaid ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i'w chwblhau a'i chyflwyno, i gadarnhau eu presenoldeb.

*Gweithredu'r rhaglen*

# *Cyfleoedd datblygu*

## Cynadleddau'r Llysgenhadon Ifanc Efydd ac Arian

Cynhelir y cynadleddau hyn yn lleol ac fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol neu randdeiliaid mewn partneriaeth â'u llysgenhadon ifanc aur neu blatinwm. Mae llyfrau gwaith ac adnoddau i gefnogi cyflwyniadau'r tiwtoriaid ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Youth Sport Trust. Pwrpas y cynadleddau hyn fydd tynnu sylw at y dull arweinyddiaeth, canlyniadau rôl, sgiliau craidd a meysydd blaenoriaeth rydym eisiau i Lysgenhadon Ifanc Efydd ac Arian eu datblygu a chanolbwyntio arnynt.

**Cofiwch**, os nad oes cynadleddau efydd neu arian yn bodoli yn eich awdurdod lleol, cysylltwch â'r Youth Sport Trust,

## Gweminarau rhithwir

Bob tymor byddwn yn cynnal gweminar fyw, i gefnogi ac uwchsgilio Llysgenhadon Ifanc ar bob lefel o'r llwybr cynnydd, yn gysylltiedig â phwnc arweinyddiaeth penodol sy'n berthnasol i'w rôl. Bydd y gweminarau yn cael eu recordio hefyd, eu cadw a'u rhannu ar-lein i Lysgenhadon Ifanc a rhanddeiliaid eu gweld, eu chwarae yn ôl, a'u defnyddio at ddibenion hyfforddi, os ydynt yn dymuno hynny.



## Hyfforddiant rhanddeiliaid

Bydd hyn yn digwydd bob blwyddyn mewn lleoliadau yng Ngogledd a De Cymru. Mae hwn wedi'i anelu at uwchsgilio staff sy'n arwain rhaglen y llysgenhadon ifanc mewn addysg a / neu gymunedau. Bydd yr hyfforddiant hwn hefyd yn rhoi cyfle i gysylltu a chydweithio, rhannu arfer da, ac adolygu llwyddiannau a diffygion ar lefel weithredol i gefnogi datblygiad parhaus y mudiad.



### *Gweithredu'r rhaglen*

# *Adnoddau ategol*

Er mwyn cefnogi gweithredu rhaglen y Llysgenhadon Ifanc yn llwyddiannus mewn addysg neu leoliadau cymunedol, rydym wedi cynhyrchu ystod o lyfrau gwaith ac adnoddau sydd ar gael i'w lawrlwytho ac i gael mynediad iddynt am ddim drwy ymweld â rhaglen Llysgenhadon Ifanc Cymru a chofrestru arni. Byddem hefyd yn argymell bod rhanddeiliaid yn cyd-ddylunio adnoddau gyda'u Llysgenhadon Ifanc eu hunain, wrth i ni barhau â'n cenhadaeth i rymuso llais ieuenctid a diwallu anghenion a dyheadau pobl ifanc.

## Adnoddau rhanddeiliaid

**Llyfrau gwaith y Llysgenhadon Ifanc**
Gellir eu lawrlwytho a'u dosbarthu gan randdeiliaid a'u darparu i Lysgenhadon Ifanc i'w cwblhau er mwyn iddynt gofnodi a dangos eu cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rôl ar bob lefel o'r llwybr cynnydd (efydd i blatinwm).

**Tystysgrifau'r Llysgenhadon Ifanc**
Gall rhanddeiliaid eu lawrlwytho, eu llofnodi, a'u dyfarnu i Lysgenhadon Ifanc unwaith y byddant yn cyflawni canlyniadau'r rôl ac wedi cwblhau eu Llyfr Gwaith Llysgenhadon Ifanc Efydd, Arian, Aur a Phlatinwm. Gellir dyfarnu tystysgrifau ychwanegol hefyd i Lysgenhadon Ifanc sy'n rhoi unrhyw un o'r chwech o werthoedd sydd gan yr Youth Sport Trust ar waith.

**Adnoddau'r Llysgenhadon Ifanc**
Crëwyd nifer o ddogfennau canllaw i diwtoriaid i helpu i ddadansoddi dulliau arwain, canlyniadau rôl, sgiliau craidd, a meysydd blaenoriaeth rhaglen y Llysgenhadon Ifanc yn fanylach, yn ogystal â chanllaw ar sut gall gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

## Adnoddau'r Llysgenhadon Ifanc

**Cynlluniwr gweithgarwch**
Gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r Llysgenhadon Ifanc wrth gynllunio, trefnu a gwerthuso unrhyw chwaraeon, gweithgarwch corfforol neu weithgareddau chwarae maent yn eu cyflwyno.

**Traciwr presenoldeb**
Gellir ei ddefnyddio gan Lysgenhadon Ifanc i gofrestru cyfranogwyr a thracio presenoldeb yn y gweithgareddau maent yn eu cyflwyno, i fonitro a mesur effaith.

**Tystysgrifau cyfranogiad**
Gall y Llysgenhadon Ifanc eu defnyddio i gydnabod y rhai sy'n cymryd rhan fwyaf yn eu gweithgareddau a'u gwobrwyo ag amrywiaeth o dystysgrifau.

## Adnoddau eraill

**Adnoddau'r Youth Sport Trust a Chwaraeon Cymru**

Edrychwch ar gannoedd o adnoddau am ddim, sydd wedi'u datblygu gan arbenigwyr addysg a chwaraeon, sydd ar gael yn hawdd i chi eu lawrlwytho a chael mynediad iddynt o wefannau'r Youth Sport Trust a Chwaraeon Cymru:

**Adnoddau'r Youth Sport Trust**

**Gemau Ysgol – Adfer Actif – adnoddau**

**Chwaraeon Cymru – Citbag – hwb dysgu ar-lein**

Bydd adnoddau ychwanegol, yn ogystal â dolenni i ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol y gall y Llysgenhadon Ifanc eu harwain, yn cael eu hyrwyddo yn ein cylchlythyr cenedlaethol i Lysgenhadon Ifanc, a fydd yn cael ei ryddhau bob tymor yn ystod y flwyddyn academaidd.

## *Gweithredu'r rhaglen*

# *Mesur effaith*

### Cofrestru ac adolygu

I fonitro a mesur maint, graddfa ac effaith mudiad y Llysgenhadon Ifanc yng Nghymru yn flynyddol, bydd system gofrestru ar-lein newydd yn cael ei chyflwyno o hydref 2023 ymlaen. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i randdeiliaid sy'n gweithredu mewn lleoliadau addysg a chymunedol gofrestru i gyflwyno rhaglen Llysgenhadon Ifanc gydnabyddedig yn nhymor yr Hydref cyn cwblhau adolygiad gwerthuso byr yn nhymor yr haf.

### Hyfforddiant a datblygiad

O hydref 2023 ymlaen, bydd y presenoldeb ym mhob cyfle hyfforddi a datblygu yn cael ei dracio, a gofynnir am adborth gan bawb sy'n bresennol i adolygu a graddio eu dysgu a'u profiadau. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro pwy, a faint o bobl sy'n cael mynediad i'n cyfleoedd yn flynyddol a chefnogi gwaith parhaus i fireinio ein darpariaeth hyfforddi a datblygu yn seiliedig ar adborth sy'n cael ei gasglu o bob rhan o'r rhwydwaith.

### Ymchwil a gwybodaeth

Yn ogystal â chofrestru ac adolygu blynyddol, bydd astudiaethau achos blynyddol o arfer gorau yn cael eu casglu o fewn ac ar draws addysg a chymunedau yng Nghymru i'w rhannu ar draws ein rhwydweithiau. Bydd ymchwil a gwybodaeth yn cael eu cynnal hefyd i adrodd ar ba effaith, os o gwbl, y mae'r weledigaeth newydd yn ei chael ledled Cymru (bydd rhai ohonynt yn cysylltu â gwaith arall yr Youth Sport Trust yng Nghymru) a byddwn hefyd yn sicrhau gwybodaeth o Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru.

### Adolygiad blynyddol

Cynhelir adolygiad blynyddol o raglen y Llysgenhadon Ifanc, gyda'r canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'n rhwydwaith i ddangos llwyddiannau a diffygion posibl yn seiliedig ar adborth gan y Llysgenhadon Ifanc a rhanddeiliaid. Bydd y canfyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i ofyn cwestiynau, gwneud diwygiadau, a chynnig cymorth pellach lle bo angen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu rhaglen gyson o safon uchel ledled Cymru.

### Cyfathrebu a chysylltedd

I adolygu effeithiolrwydd ein dull cyfathrebu, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cofrestriadau a lawrlwythiadau adnoddau o'n tudalen we Llysgenhadon Ifanc, y rhyngweithio ar draws ein platfformau digidol a'r sylw i'n cylchlythyr tymhorol. Bydd presenoldeb yn cael ei dracio hefyd yn ein paneli rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn cyfarfod bob tymor i gysylltu, cydweithredu a pharhau i sbarduno'r mudiad yn ei flaen ledled Cymru.

# Atodiad

## Cyfryngau cymdeithasol

Twitter: **@YACymru**
LinkedIn: **@YACymru**
Instagram: **YA Cymru**
Facebook: **Llysgenhadon Ifanc Cymru/ Young Ambassadors Wales**

## Gwefannau

### Youth Sport Trust

**www.youthsporttrust.org**

**www.youthsporttrust.org/young-ambassadors**

### Chwaraeon Cymru

**www.sport.wales**

**www.sport.wales/content-vault/young-ambassadors**



Youth Sport Trust
SportPark
Loughborough University
3 Oakwood Drive
Loughborough
Leicestershire
LE11 3QF

**01509 226600**
**info@youthsporttrust.org**
**www.youthsporttrust.org**
**@YouthSportTrust**

Rhif elusen gofrestredig
**1086915**
Rhif cwmni cofrestredig
**4180163**